

P-06-1258 Gwneud unigolion yng Nghymru ag anableddau cudd yn gymwys ar gyfer y Bathodyn Glas

Y Pwyllgor Deisebau | 25 Ebrill 2022
Petitions Committee | 25 April 2022

Cyfeirnod: SR22/2236-4

Rhif y ddeiseb: P-06-1258

Teitl y ddeiseb: Gwneud unigolion yng Nghymru sydd ag anableddau cudd yn gymwys ar gyfer y Bathodyn Glas

Geiriad y ddeiseb: I'r rhai sy'n byw o ddydd i ddydd gyda salwch cronig gallai cael cerdyn Bathodyn Glas fod yn fuddiol os oes angen lle cyflym a hawdd i barcio er mwyn mynd i'r toiled ar frys.

Dylai unigolion ag anableddau cudd fel Crohn's a Cholitis gael cefnogaeth ar ffurf lleoedd parcio hawdd, cyflym a hygyrch, fel lleoedd parcio i bobl anabl, os oes angen y toiled arnynt ar frys.



1. Cefndir

Cyflwynwyd y cynllun Bathodyn Glas (Parcio Personau Anabl) ym 1971 o dan adran 21 o [Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970](#). Yn 2000, Cyflwynodd [Rheoliadau Personau Anabl \(Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur\) \(Cymru\) 2000](#) y cynllun Bathodynnau Glas ar gyfer pobl anabl yng Nghymru.

Mae'r cynllun Bathodyn Glas yn darparu trefniant cenedlaethol ar gyfer consesiynau parcio i bobl sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd, ac fe'i cynhelir ar draws y DU. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y cynllun, ac awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am weinyddu a gorfodi'r cynllun o ddydd i ddydd.

Yn ôl canllawiau'r [cynllun Bathodyn Glas](#) gall unigolyn yng Nghymru fod yn gymwys i gael Bathodyn Glas yn un o'r categorïau a ganlyn:

- **Cymwys yn awtomatig** – gall unigolyn fod yn gymwys am fathodyn heb fod angen asesiad os yw'n derbyn budd-dal anabledd a restrir neu os oes ganddo nam ar ei olwg.
- **Cymwys yn ôl disgrisiwn** – gall amgylchiadau penodol wneud unigolyn yn gymwys er nad yw'n derbyn y budd-daliadau a restrir.
- **Cymwys dros dro** – caiff unigolyn wneud cais am fathodyn 12 mis dros dro os yw'n aros am driniaeth ar gyfer salwch neu anaf difrifol neu'n gwella ar ôl salwch neu anaf difrifol.

Mae'r canllawiau'n tynnu sylw at nifer o resymau nad ydynt ar eu pen eu hunain yn gwneud unigolyn yn gymwys i gael Bathodyn Glas ac mae'r rhain yn cynnwys problemau â'r bledren neu'r coluddyn megis clefyd Crohn neu Colitis.

Mewn gohebiaeth i'r Pwyllgor ar 21 Mawrth 2022, dywedodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd fod cymhwysedd yn seiliedig ar [y model cymdeithasol o anabledd](#) a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2002, ac 'yn gyffredinol, nid yw cymhwysedd yn gysylltiedig â chyflyrau meddygol sy'n seiliedig ar ddiagnosis gan eu bod yn gallu dangos ystod eang o symptomau.'

2. Y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru

Ers 2002 mae'r cynllun Bathodyn Glas wedi bod yn destun nifer o adolygiadau, ymgynghoriadau ac adroddiadau sydd wedi edrych ar wahanol agweddau ar y cynllun, gan gynnwys meini prawf cymhwysedd. Mewn gohebiaeth i'r Pwyllgor, rhestrodd Lee Waters, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, y canlynol:

- Yn 2012, comisiynodd Llywodraeth Cymru **ymchwil** i ystyried ymestyn cymhwysedd ar gyfer pobl â namau gwybyddol.
- Cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgyngoriad ar Gynllun Gweithredu** i foderneiddio'r cynllun Bathodyn Glas yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn 2010.
- **Cynhaliwyd ymgynghoriadau cyhoeddus** ar newidiadau i'r cynllun yn 2008, 2010, 2011, 2012, 2013 a 2016.
- Sefydlwyd dau **grŵp arbenigol** yn 2013 a 2015 i ystyried materion, gan gynnwys ymestyn cymhwysedd i bobl â namau gwybyddol ac ar gyfer namau symudedd dros dro.

Mae ymchwil ac adolygiadau wedi arwain at ehangu'r meini prawf cymhwysedd. Dywedodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd fod gan Gymru un o'r meini prawf cymhwysedd ehangaf yn y DU a'i fod wedi gwneud is-ddeddfwriaeth i ymestyn cymhwysedd i:

- blant o dan dair oed sydd â chyflwr sy'n golygu bod angen offer meddygol swmpus arnynt neu fod angen iddynt allu mynd i mewn i gerbyd yn gyflym i gael triniaeth achub bywyd;
- y rhai sy'n cael asesiadau penodol fel rhan o'u Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP) i asesu eu namau corfforol a gwybyddol;
- y rhai nad ydynt, oherwydd nam gwybyddol, yn gallu ymgymryd â thaith heb gymorth;
- y rhai sydd â namau dros dro sy'n para o leiaf flwyddyn ac sy'n bodloni meini prawf yr asesiad cerdded pellach.

Yn ei ymateb, gwnaeth y Dirprwy Weinidog y pwynt hefyd fod ymchwil wedi ystyried nifer o gyflyrrau penodol, ond ei fod wedi dod i'r casgliad na fyddai'n briodol cynnwys, er enghraifft:

Mae anymataledd yn y coluddyn a'r bledren yn gofyn am gael mynd i doiled yn hytrach na chael consesiwn parcio a dylai pobl sydd â chyflyrau o'r fath allu cael cardiau '**Dwi ddim yn gallu aros**'. Mae'r Cynllun Allweddol Cenedlaethol (NKS) yn golygu bod pobl anabl yn cael defnyddio toiledau cyhoeddus dan glo ledled y wlad. Mae toiledau sydd â chloeon NKS ar gael mewn canolfannau siopa, tafarndai, caffis, siopau adrannol, gorsafoddd bysiau a threnau a llawer o leoedd eraill ledled y wlad. Mudiadau'r trydydd sector sy'n rhannu'r allweddol hyn.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Ym mis Ebrill 2019 cynhaliodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ymchwiliad i gymhwysedd a gweithrediad y cynllun Bathodyn Glas yng Nghymru. Gwnaeth yr adroddiad 19 o argymhellion, a oedd yn cynnwys galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'r meini prawf cymhwysedd, gan gynnwys a oes amodau pellach a ddylai olygu bod rhywun yn gymwys yn awtomatig i dderbyn bathodyn glas. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor yn 2019 gan dderbyn yr argymhelliad hwn. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai gwaith ymchwil yn cael ei wneud yn y dyfodol agos, a dywedodd y canlynol o ran nodau'r cynllun:

Nod yr ymchwil hon yn gyntaf yw adolygu'r meini prawf cymhwysedd presennol ar gyfer bathodyn glas, ac wrth wneud hynny, ystyried a ddylid ehangu'r meini prawf cymhwysedd yng Nghymru. Yn ail, adolygu cadernid y prosesau asesu y mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau ar eu cyfer i awdurdodau lleol sy'n gweinyddu'r cynllun.

Wrth aros am ganlyniad yr adolygiad, dywedodd y Dirprwy Weinidog y gallai newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd gael eu hystyried.

Yn benodol ar fater ymestyn cymhwysedd, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

Mae ymestyn cymhwysedd yn fater sensitif sy'n gofyn am gadw'r ddysgl yn wastad rhwng anghenion deiliaid cymwys presennol y bathodynnau a'r rhai a allai elwa o gael bathodyn, ond na fyddent yn gwbl ddibynnol ar y cynllun i gael at wasanaethau a chyfleusterau.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.